CROESO CYMRU | *Y Diweddaraf am Fuddsoddiadau yn y Rhanbarthau*

# Y GOGLEDD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

# CYFLWYNIAD

Mae gan Croeso Cymru nifer o drefniadau cyllido a chynlluniau cymorth i helpu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru i ddatblygu ei gynhyrchion.

Rydym yn cynnig cymorth cyfalaf a chymorth refeniw ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd er mwyn datblygu cynhyrchion arloesol a fydd yn helpu i werthu Cymru mewn ffordd fwy cyfoes i'r DU a'r farchnad ryngwladol.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth lefel uchel ac yn cyfeirio at ddetholiad bach o'r cynhyrchion twristiaeth hynny yn eich ardal chi.

**Cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:

**Cyllid Cyfalaf (TISS, TAIS a MSBF)**

Phil Griffiths – Dadansoddydd Rhanbarthol
phil.griffiths@llyw.cymru
+44 (0) 3000 625 397

**Cyllid Refeniw (RTEF a TPIF)**

Andrew Forfar – Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol
andrewwallace.forfar@llyw.cymru
+44 (0) 3000 625 837

Ceri Turner – Swyddog Ymgyslltu Rhanbarthol
ceri.turner2@llyw.cymru
+44 (0) 3000 625 338

**Dolenni at wefannau defnyddiol:**

**Cyllid**
businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid

**Y blynyddoedd thematig**
businesswales.gov.wales/tourism/cy/y-blynyddoedd-thematig

**Ffordd Cymru**
fforddcymru.cymru

**Croeso Cymru**
croeso.cymru – @croesocymru
traveltrade.visitwales.com – @visitwalestrade
visitwales.com/businessevents – @MeetInWales

**Parth Twristiaeth**
businesswales.gov.wales/tourism/cy – @croesocymrubus

**E-bostiwch newyddion am eich cynnyrch**
productnews@llyw.cymru

**E-bostiwch eich ymholiadau diwydiant**
quality.tourism@llyw.cymru

# TWRISTIAETH YNG NGOGLEDD CYMRU: PRIF FFEITHIAU A FFIGURAU

**DS:** Mae'r ystadegau ar gyfer maint a gwerth twristiaeth yn gyfartaleddau blynyddol 2014-16 o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr ac Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r ffigurau cyflogaeth yn dod o Ystadegau Sectorau Blaenoriaethol Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth fanylach, dilynwch y ddolen i'n Taflenni Wybodaeth Rhanbarthol gov.wales/statistics-and-research/?topic=Tourism&skip=1&lang=cy

£1.8b

Mae gwariant blynyddol gan dwristiaid ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru yn cyrraedd £1.8 biliwn – bron traean o gyfanswm Cymru gyfan.

12 i 1

Mae ymwelwyr dros nos Prydeinig yn fwy niferus nag ymwelwyr tramor yng Ngogledd Cymru o 12 i 1. Y marchnadoedd tramor pwysicaf i Ogledd Cymru yw Iwerddon (20%), Yr Almaen (12%), UDA (11%) a Ffrainc (9%).

3.6m

Mae Gogledd Cymru yn denu yn flynyddol 3.6 miliwn o ymwelwyr Prydeinig sy'n aros dros nos a bron 0.3 miliwn pellach o ymwelwyr tramor. Mae 69% o ymwelwyr Prydeinig sy'n aros yn dod ar wyliau. Y prif ranbarth o ran tarddiad yw Gogledd Orllewin Lloegr, sy'n gartref i 39% o ymwelwyr dros nos Gogledd Cymru.

28m

Yn ogystal ag arosiadau dros nos, mae Gogledd Cymru yn denu 28 miliwn o ymweliadau dydd yn flynyddol, sy'n werth dros £1 biliwn y flwyddyn.

3.65

Hyd cyfartalog arosiadau yng Ngogledd Cymru yw 3.65 o nosweithiau, ychydig yn hwy na chyfartaledd Cymru, sef 3.5 o nosweithiau.

31,200

Mae 31,200 yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn twristiaeth yng Ngogledd Cymru, sef 11% o'r holl gyflogaeth yng Ngogledd Cymru a 24% o gyflogaeth mewn twristiaeth yng Nghymru gyfan.

Rydym wedi llwyddo i gael rhagor o arian oddi wrth yr **Undeb Ewropeaidd** i ychwanegu at gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Bydd yn caniatáu inni weithio mewn ffordd ragweithiol gyda'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth i ddatblygu cynnyrch twristiaeth newydd o ansawdd uchel drwy'r rhaglenni a ganlyn.

- Y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD)
- Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (CDE-TISS)
- Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)
- Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)

# C Y L L I D C Y F A L A F

## Y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD)

Nod y cynllun Cyrchfannau Denu Twristiaeth yw creu un ar ddeg o gyrchfannau "bythgofiadwy" ledled Cymru er mwyn creu proffil uwch i Gymru fel gwlad lle gall ymwelwyr hen a newydd fynd ar eu gwyliau. Bydd yn helpu i sicrhau twf o 10% yn y sector twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020.

Mae'r cynllun Cyrchfannau Denu Twristiaeth, a gafodd sêl bendith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Mawrth 2016, yn cynnwys gwerth £7.5 miliwn o gyllid ar gyfer y Gogledd o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bydd y swm hwnnw'n sicrhau cyfanswm o £19.3 miliwn o fuddsoddiad.

Ar draws Cymru, mae cyfanswm o £27.7 miliwn yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a bydd y cyllid hwnnw'n sicrhau buddsoddiad o £62 miliwn.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

### 01—Glannau Bae Colwyn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Bydd y prosiect hwn yn ehangu datblygiadau blaenorol a gwella 1km arall o'r promenâd i greu mwy o le ar gyfer ciosgau, parcio, gweithgareddau ac atyniadau newydd.

### 02—Venue Cymru (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Ailgynllunio'r adeilad i ddefnydio'r gofod yn well ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau i fusnesau.

### 03—Castell Caernarfon (Cadw)


Gwella'r mynediad i loriau uwch prif fynedfa'r castell, creu caffi a phrofiadau rhyngweithiol newydd, ehangu safle'r siop a gwella'r toiledau i ymwelwyr.

### 04—Glannau Caernarfon (Cyngor Gwynedd)

Darparu adeilad pen yr rheilffordd a chyfleusterau newydd i Reilffordd Eryri; ehangu Canolfan Mentrau Creadigol y Galeri i ddarparu cyfleusterau sinema, swyddfeydd a mannau ar gyfer gwaith creadigol; datblygu cysylltiadau ffisegol newydd rhwng safleoedd allweddol yng Nghaernarfon.

### 05—Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Cybi (Cyngor Ynys Môn)

Arwyddion newydd yn y porthladd a byrddau dehongli i ymwelwyr rhyngwladol, gwelliannau i'r fynedfa ar gyfer eglwys Sant Cybi a'r gaer Rufeinig, arwyddion a byrddau dehongli newydd ar gyfer teithwyr annibynnol ar Ynys Cybi, parc newydd ar gyfer cartrefi modur a charafanau teithio ym Mharc y Morglawdd yng Nghaergybi.













## Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (CDE-TISS)

Mae Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (CDE-TISS) ar gael i fusnesau mawr a chanolig sy'n cyflogi 50 neu ragor o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Cronfa fuddsoddi yw'r gronfa hon ac mae'n cynnig cyfuniad o gyllid ad-daladwy a chyllid nad oes angen ei ad-dalu. Mae'n cael ei thargedu at brosiectau yn y sector twristiaeth yng Nghymru sy'n gymwys i gael buddsoddiad cyfalaf ac sy'n cefnogi'n blaenoriaethau ym maes twristiaeth (a amlinellir yn y strategaeth dwristiaeth, Partneriaeth ar gyfer Twf) a strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru.

Gellir defnyddio cyllid o'r gronfa i uwchraddio cynnyrch o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes neu i greu cynnyrch newydd o'r fath pan fo bwlch yn y farchnad. Ystyrir rhoi cymorth a fydd yn amrywio o £25,000 i £500,000 ac, o bryd i'w gilydd, mwy na hynny mewn achosion eithriadol.

Ers mis Ebrill 2015, rydym wedi cynnig cyfanswm o £7.8 miliwn i 47 o ymgeiswyr ar draws Cymru drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, gan sbarduno gwerth £44 miliwn o fuddsoddiad a chefnogi 698 o swyddi.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

### 06—Zip World, Betws-y-Coed

Creu reid newydd drwy'r goedwig alpaidd yn ZipWorld Fforest.

### 07—Erskine Arms, Conwy

Troi adeilad rhestredig Gradd II yn westy 4 seren ag iddo 10 ystafell wely.

### 08—Tŷ Glyndŵr, Caernarfon

Creu Tŷ Bynciau 4 seren ac iddo 30 gwely, caffi a bar.


### 09—Bwyty Dylan's, Llandudno

Troi'r adeilad rhestredig Gradd II, yn fwyty ac iddo le i 250 o bobl.

### 10—Tŷ Castell, Caernarfon

Troi tŷ tref Sioraidd rhestredig Gradd II yn fwyty 4 seren ac iddo ystafelloedd.

12—




## Y Gronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae’r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) ar gael i fusnesau micro a bach sy’n cyflogi llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ac sydd â throsiant neu fantolen o lai na €10 miliwn. Cronfa buddsoddiad cyfalaf yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Fe’i hariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru ac mae’n targedu prosiectau sy’n cefnogi amcanion ein blaenoriaethau ar gyfer twristiaeth (a amlinellir yn y strategaeth dwristiaeth, Partneriaeth ar gyfer Twf) ac amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Gellir defnyddio’r cyllid i uwchraddio cynnyrch o ansawdd uchel sy’n bodoli eisoes neu i greu cynnyrch newydd o’r fath pan fo bwlch yn y farchnad. Ystyrir cymorth yn amrywio o £25,000 i £500,000. O dan amgylchiadau eithriadol, mae’n bosibl y byddwn yn gallu ystyried cynnig llai na hynny.

Ers mis Hydref 2017, rydym wedi cynnig cyllid o dan y Gronfa hon i 18 o ymgeiswyr ledled Cymru. Cynigiwyd cyfanswm o £1.9 miliwn, sydd wedi denu buddsoddiad o £5.9 miliwn ac wedi cefnogi 213 o swyddi.

Dyma rai o’r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

### 11—Parc Hamdden Plassey, Eutun

Creu 14 uned llety 5 seren (10 caban a 4 pabell saffari) a gwella bwyty The Shippon.

### 12—RibRide, Porthaethwy

Prynu cwch pwrpasol ar gyfer 11 o deithwyr.

### 13—Tŷ Sandymount, Rhosneigr

Troi tafarn mewn cyflwr gwael yn fwyty 5 seren ac iddo 7 ystafell wely.

### 14—Gwaith Llechi Inigo Jones, Caernarfon

Gwella cyfleusterau i ymwelwyr.



17—

## 15—Gwesty Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog

Gwesty newydd 4 seren ag iddo 23 ystafell wely a 6 phabell saffari glampio.

## Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)

Mae Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) ar gael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac i sefydliadau dielw. Cronfa buddsoddiad cyfalaf yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Fe'i hariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru ac mae'n targedu prosiectau sy'n helpu i ddatblygu seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Ystyrir rhoi cymorth yn amrywio o £25,000 i £128,000. Y terfyn uchaf o ran cyfanswm y gwariant cymwys ar brosiect yw £160,000.

Arweiniodd cylch cyllido cyntaf y Cynllun hwn (2017) at 23 o gynigion grant i awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector ledled Cymru a chynigiwyd cyfanswm o £2.2 miliwn. Yn yr ail gyfnod o gyllid (2018) gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer cronfa o £1.7 miliwn (mae'r cyfnod bellach ar gau). Gwneir penderfyniadau erbyn diwedd yr hydref.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

## 16—Harlech – Gwella cyfleusterau'r maes parcio ar gyfer coetsys (Cyngor Gwynedd)

Gwella amwynderau i ymwelwyr a chyfleusterau croesawu ymwelwyr yn y Safle Treftadaeth y Byd hwn.

## 17—Camlas a Thraphont Pontcysyllte – Creu maes parcio newydd i ymwelwyr (Glandŵr Cymru)

Ers dod yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2009, mae nifer yr ymwelwyr â rhai lleoliadau yn yr ardal wedi codi 70%. Mae Basn Trefor bellach yn denu dros 250,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

## 18—Conwy – Arwyddion a mapiau ar gyfer ymwelwyr (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Gwahanol arwyddion ledled y sir i wella cysylltiadau gwledig.

## 19—Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Pedwerydd cylch wedi'i ychwanegu at Lwybr y MinorTaur ym Mharc Coedwig Coed y Brenin, sy'n ychwanegu 2km at y trac sengl.

## 20—Llangefni (Cyngor Sir Ynys Môn)

Gwelliannau i dri phrif leoliad o amgylch y dref farchnad: Oriel Môn, Gwarchodfa Natur Nant y Pandy a Llwybr 566 Lôn Las.

Mae'n rhaglenni refeniw yn helpu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd i hyrwyddo ac i ddatblygu cyrchfannau unigryw o ansawdd uchel i ymwelwyr drwy eu hannog i gydweithio mwy mewn modd sy'n cyd-fynd â'n blynyddoedd thematig a **Ffordd Cymru**.

Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)

# C Y L L I D R E F E N I W

### Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

Cronfa refeniw yw'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) a gefnogir drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, ac a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Diben y Gronfa yw:

- cyfrannu at daro'r targed twf o 10% a nodwyd yn 'Partneriaeth ar gyfer Twf': y strategaeth dwristiaeth 2013-2020
- hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig, o ansawdd uchel drwy roi eu cynlluniau rheoli cyrchfannau ar waith
- galluogi cyrchfannau i sicrhau'r manteision mwyaf posibl drwy gyd-fynd â'r blynyddoedd thematig a arweinir gan y cynnyrch a thrwy gyd-fynd â Menter Ffordd Cymru

Ers 2015, drwy'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF), rydym wedi cefnogi 65 o brosiectau ledled Cymru a oedd yn werth cyfanswm o £3.5 miliwn.

Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn cyfateb i 17 o brosiectau gwerth cyfanswm o £1.1 miliwn.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

21—

### 21—**Rhaglen Mordeithiau'r Gogledd**


Mae'r rhaglen hon, a gafodd ei chynllunio ar gyfer y tymor mordeithiau 2017/2019, yn creu croeso a phrofiad bythgofiadwy i deithwyr. Mae gweithgareddau'n cynnwys perfformiadau ar y cei a digwyddiadau a gynhelir ym mhrif gyrchfannau'r Gogledd. Mae'r prosiect hefyd yn creu deunydd hyrwyddo ar gyfer sioeau'r fasnach fordeithio a'r cyfryngau digidol gan ganolbwyntio ar Flwyddyn y Môr 2018.

### 22—**Llwybrau i'r Môr (y Gogledd-ddwyrain)**

Yn dangos amrywiaeth eang yr hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid drwy hyrwyddo gweithgareddau a phrofiadau cyfoes a diddorol i ymwelwyr. Arwain 'her y bwyd môr' ar gyfer cyflenwyr bwyd yn yr ardal gan eu hannog i ddefnyddio bwyd lleol i greu prydau newydd.






### 23—Ffordd y Môr (Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Benfro)

Yn cydweithio â phartneriaid lleol i fanteisio ar lwybr arfordir Ffordd Cymru i greu fideos a lluniau i wella'r gwefannau sydd eisoes yn bodoli ag ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol.

### 24—Gwlad Chwedlau (Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Datblygu deunydd ar-lein a hyrwyddo'r hyn sydd gan Wynedd i'w gynnig i dwristiaid sy'n cyd-fynd â thema Blwyddyn y Chwedlau. Cynhaliodd y prosiect y gwaith o ddylunio'r cleddyf yn Llanberis a'r ymgyrch farchnata a chyhoeddusrwydd ar-lein hynod lwyddiannus a dargedodd prif farchnadoedd Cymru.

### 25—Cawr yn ei Gwsg yng Nghorwen (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy)

Defnyddio'r dirwedd i greu darn celf mawr unigryw sy'n seiliedig ar chwedl leol a fydd yn denu ymwelwyr i'r dref. Bydd yr AHNE yn cydweithio'n agos â thrigolion a busnesau i ddylunio'r darn i sicrhau buddion mwyaf y prosiect.

## Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)

Cronfa refeniw yw'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) a gefnogir drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, ac a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Pwrpas y Gronfa yw gweithio gyda phartneriaid ar ledled Cymru:

- —i daro'r targed o 10% o dwf a nodir yn Partneriaeth ar Gyfer Twf 2013-2020 – y strategaeth dwristiaeth
- —i annog mwy o gydweithio rhwng consortia, partneriaethau a grwpiau twristiaeth
- —i ddatblygu a gwella'r cynnyrch a gynigir i ymwelwyr, er lles y sector twristiaeth achymunedau lleol
- —i helpu'r economi dwristiaeth i dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

Ers 2015, drwy'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF), rydym wedi cefnogi 69 o brosiectau ledled Cymru a oedd yn werth cyfanswm o £2.6 miliwn.

Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn cyfateb i 23 o brosiectau gwerth cyfanswm o £727,671.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y Gogledd sydd wedi cael cymorth:

### 26—Cyhoeddusrwydd Lonely Planet (GO North Wales)

Wedi'i enwi gan Lonely Planet yn un o 10 rhanbarth gorau ar gyfer 2017. Datblygodd GO North Wales ymgyrch weledol i hyrwyddo'r teitl hwn yn Llundain drwy lapio 6 tacsi ac un bws â delweddau o'r Gogledd. Cynhaliwyd cystadleuaeth ar y radio i ennill gwyliau yn y Gogledd.

### 27—Taith anhygoel ar draws Cymru (Eryri Bywiol)

Yn 2017 a 2018 teithiodd Eryri Bywiol ar hyd Ffordd Cymru mewn fan wersylla glasurol Volkswagen. Ymddangosodd cymeriadau ysbrydoledig ar hyd y daith mewn digwyddiadau cyffrous. Ffilmiwyd y daith mewn modd deniadol er mwyn ysbrydoli ymwelwyr i greu eu hanturiaethau eu hunain ar hyd llwybrau Cymru.

### 28—Gŵyl Chwedlau Cymru/ MythFest Wales (Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd)

Yn dathlu mythau a chwedlau'r Gogledd-ddwyrain drwy gyfres o ddigwyddiadau unigryw a rhyngweithiol ar gyfer teuluoedd mewn prif leoliadau gwledig ac arfordirol lle gall ymwelwyr glywed straeon traddodiadol Cymru, gwrando ar gerddoriaeth a dysgu am grefftau cynaliadwy.

### 29—Gŵyl Tân a Môr Harlech (Cymdeithas Dwristiaeth Harlech)

Gŵyl sy'n adrodd straeon cewri Harlech drwy gyfres o ddigwyddiadau cyffrous ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. Cafwyd cyfuniad o lusernau tân, gosodiadau anhygoel a cherfluniau tywod llosg i greu Hud Meirion. Cefnogwyd a hyrwyddwyd yr Ŵyl drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chystadlaethau.

26—




© Chris Parry

30—**Chwifio'r Faner dros Gymru (Trenau Bach Arbennig Cymru)**
Cynllun marchnata ar y cyd i hyrwyddo'r rheilffyrdd bach a'r Gogledd yn gyffredinol mewn marchnadoedd allweddol yn Lloegr a thramor. Mae'r prosiect yn ymwneud â datblygu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar-lein ynghyd â gwaith penodol yn yr Almaen i annog teithiau grŵp i ymweld â'r ardal a Threnau Bach Arbennig Cymru.


30—

OGL WG35649 / © Hawlfraint y Goron 2018